# Nodiadau cymorth ymgeisio: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri)

See all updates
Mae'r arweiniad ymgeisio hwn ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gwneud cais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri), am grantiau rhwng £50,000 a £250,000.

**Crëwyd y dudalen: Medi 2023.**

Mae'n **rhaid** i chi ddefnyddio'r arweiniad hwn i'ch cynorthwyo wrth gwblhau ffurflen gais ar-lein am grant o dan £250,000.

**Pwysig**: Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer y rhaglen hon. **Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r ariannu hwn.

## Y Camau Cyntaf

1. Bu i ni lansio porth ymgeisio newydd ym mis Mawrth 2021. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar y porth, bydd angen i chi gofrestru cyn cyflwyno cais.
2. Os na allwch sefydlu eich cyfrif neu eich bod yn profi unrhyw anawsterau technegol, cysylltwch â:?investment-service-support@heritagefund.org.uk.
3. Unwaith y bydd eich sefydliad wedi cofrestru, cliciwch ar 'Dechrau Cais Newydd' a dewiswch y botwm 'Grantiau £10,000 i £250,000. Yna cliciwch ar 'Dechrau Cais Newydd'.
4. Os byddwch yn penderfynu copïo a gludo testun o ddogfen Word yn uniongyrchol i'ch ffurflen gais, adolygwch eich cais cyn ei gyflwyno a gwnewch newidiadau lle bo angen er mwyn sicrhau nad ydych yn mynd dros y terfynau geiriau a nodir. Bydd modd i chi gadw'r ffurflen hon wrth i chi weithio arni.

## Cwestiynau

### Eich prosiect

**Dywedwch wrthyn ni ba gyngor rydych wedi'i dderbyn wrth gynllunio eich prosiect a chan bwy**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

**Ai hwn yw'r cais cyntaf aton ni gan eich sefydliad?**

Atebwch 'ydy neu 'nac ydy'.

**Teitl y prosiect**

Cofiwch gynnwys y rhagddodiad #NNF3 yn nheitl eich prosiect. Er enghraifft **#NNF3 Gwelliannau i warchodfa natur gweision y neidr.**

**Pryd fydd eich prosiect yn digwydd?**

Dyma'r dyddiad yr ydych yn disgwyl dechrau ar eich prosiect. Dylai fod ar neu ar ôl **1 Ebrill 2024.**

Mae'n **rhaid** i'ch prosiect ddod i ben erbyn 1 Mawrth 2026, gan gynnwys yr holl adroddiadau ariannol a gwerthuso. Rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o brosiectau cynllunio prosiect yn para'n fyrrach na phrosiectau sy'n cyflwyno gwaith cyfalaf.

**Pam mae angen i'ch prosiect chi ddigwydd nawr?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

**Ydy'r prosiect yn digwydd yn yr un lleoliad â chyfeiriad eich sefydliad?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'ydy' neu 'nac ydy'.

Os nac ydy, gofynnir i chi gynnwys manylion cyfeiriad eich prosiect.

Ar gyfer prosiectau ar safle neu dirwedd, rhowch gyfeirnod grid chwe digid yr Arolwg Ordnans ar gyfer pwynt canol ardal eich prosiect (er enghraifft: SK510072). Os ydych yn gweithio ar nifer o safleoedd, gwahanwch bob cyfeirnod grid gyda hanner colon (er enghraifft: SK510072; SX163777; TQ317842). Peidiwch â chynnwys unrhyw destun ychwanegol gyda'ch cyfeirnodau grid.

**Disgrifiwch eich syniad**

Mewn uchafswm o 500 o eiriau, esboniwch beth mae eich prosiect yn bwriadu ei wneud ac ar beth y byddwch chi'n gwario'r arian. Dylech ddefnyddio'r ddau is-bennawd a ganlyn, gan ddibynnu a yw eich prosiect yn gyfalaf, yn ymwneud â chydnerthedd neu'r ddau.

Prosiectau Cyfalaf:

- Ar ba safle(oedd) fyddwch chi'n gweithio?
- Pa waith fyddwch chi'n ymgymryd ag ef ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau?
- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd, cynulleidfaoedd targed)?

Prosiectau Cynllunio Prosiect:

- Ar ba safle(oedd) y byddwch chi'n cynllunio ar gyfer gweithredu yn y dyfodol?
- Pa waith fyddwch chi'n ei ymgymryd ag ef yn ystod y prosiect (er enghraifft, pa arolygon, ymgynghoriadau neu weithgareddau cynllunio)?

- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd, cynulleidfaoedd targed, partneriaid)?
- Sut fydd y cynllun yn ceisio gwella cyflwr a chydnerthedd y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig?

**A fydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect?**

Atebwch gwestiynau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf yn ôl y drefn arferol, 'bydd' neu 'na fydd'.?

Dylech gyflwyno arolygon cyflwr a/neu ddogfennau/lesau perchnogaeth os oes gennych nhw.

**Oes angen caniatâd arnoch chi gan unrhyw un arall i wneud eich prosiect?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'oes', 'nac oes' neu 'ddim yn si?r'. Mae'n rhaid i chi ddangos yn eich cais eich bod yn ymwybodol o'r caniatadau a'r trwyddedau perthnasol ar gyfer cyflwyno'ch prosiect, a'ch bod yn gweithio tuag at gaffael y rhain.

**Pa wahaniaeth a ddaw yn sgil eich prosiect?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

**A ystyrir bod y dreftadaeth mewn perygl?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'ydy' neu 'nac ydy'.

Os ydy, esboniwch sut mae'r dreftadaeth mewn perygl.

**A oes gan y dreftadaeth unrhyw ddynodiadau ffurfiol?**

Dewiswch unrhyw opsiynau o'r rhestr sy'n berthnasol i'ch treftadaeth.

**Ydy eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth sy'n denu ymwelwyr?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'ydy' neu 'nac ydy'.

**Pam mae eich prosiect yn bwysig i'ch cymuned?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

**Pa fesurau fyddwch chi'n eu cymryd i gynyddu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a gostwng effeithiau amgylcheddol negyddol?**

Dylai'r ateb hwn ganolbwyntio ar weithgarwch y tu allan i'r gwaith gwella cynefinoedd ei hun. Er enghraifft: teithio, caffael neu wastraff. Darllenwch ein harweiniad cynaladwyedd amgylcheddol am fwy o wybodaeth.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r prosiect ddod i ben?**

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am reoli a chynnal yr allbynnau ar ôl i'r prosiect ddod i ben, pa waith a pha fath o ganiatâd fydd eu hangen. Ar gyfer gwaith cyfalaf, dylai hyn fod yn gysylltiedig â chynllun rheoli a chynnal a chadw. Os nad oes gennych gynllun ar hyn o bryd, gellir cynnwys hwn yng ngweithgarwch eich prosiect.

Ar gyfer prosiectau cynllunio prosiect:

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am symud y prosiect ymlaen i'r cam cyflwyno. Beth fydd ei angen i wneud hyn?

**Pam mai eich sefydliad chi yw'r un gorau i gyflwyno'r prosiect hwn?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

**A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno gan bartneriaeth?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'bydd' neu 'na fydd'.

Os ateboch 'bydd', rhaid i chi atodi'ch cytundeb partneriaeth a nodi y gellir gofyn i bartneriaid ffurfiol ymrwymo i'n telerau grant.

## Canlyniadau

Rydym yn disgrifio'r gwahaniaeth yr ydym am ei wneud gyda'n hariannu trwy set o naw canlyniad, sy'n cynnwys ein chwe chanlyniad blaenoriaeth. Mae canlyniadau'n newidiadau, effeithiau neu fuddion sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r ariannu hwn.

Y canlyniadau **gorfodol** ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri) yw:

- bydd ystod ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth
- bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell

Mae'n **rhaid** i chi ymdrin â'r **ddau ganlyniad** yn eich cais.

Disgwyliwn i ymatebion fod yn gymesur â swm y grant y gofynnir amdano.

Os yw'n berthnasol i'ch prosiect, gallwch hefyd ymateb i:

- Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy cydnerth

**Sut fydd eich prosiect yn cynnwys amrywiaeth ehangach o bobl?**

Dylai eich ateb esbonio sut y bydd eich proffil o ran cynulleidfa neu wirfoddolwyr wedi newid drwy'r prosiect neu, os mai cais am gynllunio prosiect yw hwn, sut y byddai'n newid mewn prosiect yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys:

- gwelliannau i hygyrchedd safle
- gweithio gyda phartneriaid neu sefydliadau eraill i gyrraedd cynulleidfaoedd sydd heb eu gwasanaethau'n ddigonol
- cefnogi unigolion newydd i gyrchu'r sector trwy swyddi, hyfforddiant a/neu brentisiaethau

Dylid cynnwys tystiolaeth i gefnogi'ch cynlluniau chi.

**Sut fydd eich prosiect yn helpu i wella cyflwr treftadaeth?**

Esboniwch sut fydd eich prosiect yn gwella cyflwr y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig, hyd yn oed os bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol. Er enghraifft, disgrifiwch pa gamau penodol y byddwch yn eu cymryd i wella rheolaeth ar y cynefinoedd a'r rhywogaethau.

Os nad yw eich prosiect yn digwydd yn uniongyrchol ar safle gwarchodedig, esboniwch sut fydd eich prosiect yn dod â gwerth i'r rhwydwaith yn y tymor hir. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at y Map Rhwydweithiau Natur am dystiolaeth o sut y bydd lleoliad gweithgareddau y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig yn datblygu cysylltedd. Mae hyn ar gael trwy MapData a Phorth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru (WEIP):

- MapDataCymru: Cysylltedd Cynefin a Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth
- Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru. Dewiswch 'archwilio' o'r brif ddewislen, yna cliciwch ar y tab 'Gwytnwch Ecosystem'.

**A fydd eich prosiect yn cyflawni unrhyw un o'n canlyniadau eraill?**

Gadewch hyn yn wag, ni fyddwn yn asesu unrhyw ganlyniadau eraill ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri).

## Rheoli eich prosiect

**Sut fydd eich prosiect yn cael ei reoli?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol.

**Sut fyddwch chi'n gwerthuso eich prosiect?**

Rydym yn argymell i chi ymgorffori gwerthuso o ddechrau eich prosiect. Po fwyaf gofalus y mae prosiectau'n cyllidebu ar gyfer eu gwerthusiad, yr uchaf fydd ansawdd yr adroddiad terfynol. Rydym wedi argymell lleiafswm gwariant ar werthuso a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yn ein canllaw gwerthuso.?

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn disgwyl rhywfaint o adborth gwerthuso, mewn dwy ran:

- eich adroddiad gwerthuso eich hun, sydd i'w gyflwyno cyn i ni dalu'r 10% olaf o'ch grant
- Holiadur gwerthuso, o fewn blwyddyn ar ôl cwblhau. Gallwch weld yr wybodaeth y byddwn am i chi ei hadrodd yn ein canllaw gwerthuso.

**Sut ydych chi'n bwriadu cydnabod eich grant?**

Fel rhan o'ch grant gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i chi gydnabod eich ariannu ar gyfryngau cymdeithasol, drwy ddatganiadau i'r wasg, a thrwy arddangos ein logo partneriaeth. Darllenwch ein Canllaw cydnabod eich grant gan Lywodraeth Cymru.

**Dywedwch wrthyn ni am unrhyw swyddi neu brentisiaethau y byddwch yn eu creu i gyflwyno'ch prosiect**

Atebwch yn ôl y drefn arferol. Os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau, rhaid i chi atodi'r disgrifiadau swydd perthnasol.

## Costau'r prosiect

Cyfeiriwch at adran 'Paratoi eich cais' yr arweiniad ymgeisio i sicrhau bod costau eich prosiect yn rhai cymwys.

At ddibenion monitro, mae'n bwysig i chi wahaniaethu rhwng costau cyfalaf a refeniw yn eich tabl costau. I wneud hyn, rhowch nhw ar linellau ar wahân ac ychwanegwch 'Cyf' neu 'Ref' ar ddechrau pob disgrifiad cost. Er enghraifft, os ydych yn gwneud cais am £10,000 o ffioedd proffesiynol ar gyfer gwaith cyfalaf, a £5,000 o ffioedd proffesiynol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu, dylai eich tabl edrych fel hyn:

Enghraifft o dabl costau

| Pennawd cost | Disgrifiad o'r gost | Swm |
|---|---|---|
| Ffioedd proffesiynol | CYF contractwyr i adeiladu cuddfan adar | £10,000 |
| Ffioedd proffesiynol | REF gweithwyr llawrydd i gyflwyno rhaglen weithgareddau | £5,000 |

Mae'n bwysig nad yw'r costau rydych yn gofyn i ni eu talu'n gyfystyr â chymhorthdal anghyfreithlon i chi. Gwiriwch adran 'Gwybodaeth Ychwanegol' yr arweiniad ymgeisio am fanylion pellach.

## Cefnogaeth dros eich prosiect

**Ydych chi'n derbyn unrhyw gyfraniadau arian parod at eich prosiect?**

Atebwch yn ôl y drefn arferol, 'ydym' neu 'nac ydym'.

Noder: Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau arian parod at brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd tri). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau arian parod y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.

**Ychwanegu cyfraniad nad yw'n arian parod**

Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau nad ydynt yn arian parod at brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd tri). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.

**Gwirfoddolwyr**

Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau o ran gwirfoddolwyr at brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd tri). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau o ran gwirfoddolwyr y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.

**Tystiolaeth o gefnogaeth**

Atebwch yn ôl y drefn arferol. Uwchlwythwch lythyrau, e-byst neu fideos o gefnogaeth fel y bo'n briodol ar gyfer eich prosiect.

## Dogfennau ategol

Mae'n rhaid i'r dogfennau ategol a ganlyn gael eu huwchlwytho ar ddiwedd eich ffurflen gais. Dylai maint y ffeiliau fod yn llai na 20MB.?Noder bod rhai o'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn y ffurflen gais ar-lein.?

Ar gyfer y rhaglen hon, mae angen y dogfennau canlynol arnom:

- dogfen lywodraethu (gorfodol os oes gan eich sefydliad un o'r rhain)
- cyfrifon wedi'u harchwilio neu eu dilysu (gorfodol os ydych yn sefydliad)
- cynllun prosiect (gorfodol ar gyfer pob prosiect) – gallwch lawrlwytho templed o'n tudalen cynllun prosiect
- cytundeb partneriaeth (gorfodol os ydych yn gweithio mewn partneriaeth)
- disgrifiadau swydd (gorfodol os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau newydd fel rhan o'ch prosiect)
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir (os yn berthnasol)?
- delweddau, gan gynnwys o leiaf un map sy'n dangos lleoliadau gwaith cyfalaf?
- cyfrifo adennill costau llawn (os yn berthnasol)?
- tystiolaeth o gefnogaeth, megis llythyrau, e-byst neu fideos cefnogol (dewisol)